# ADRODDIAD I GABINET Y CYNGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **29 Mawrth 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dilwyn Morgan** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Marian Parry Hughes, Pennaeth Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd** |
| **E-bost Cyswllt:** | **marianhughes@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Strategaeth 'Dim Drws Anghywir' (No Wrong Door)** |

## 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y strategaeth 'Dim Drws Anghywir' fel y cyfeiriad strategol ar gyfer datblygiadau ar gyfer y dyfodol ym maes plant a phobl ifanc ynghyd â chefnogaeth i'w weithredu yn lleol yng Ngwynedd fel rhan o gynllun rhanbarthol ehangach.

1.2 Mae yn cyd-fynd gydag egwyddorion Ffordd Gwynedd ac yn gorwedd o fewn ein trefniadau ar gyfer datblygu'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cryfhau'r trefniadau drws ffrynt, y mynediad at wasanaethau, a'r agwedd o gynnig ymyraethau cynnar ac arbedol i osgoi problemau waethygu. Bydd yn cryfhau ein gallu i ymestyn ein gwasanaethau yn rhai mwy integredig gyda'n partneriaid.

## 2 CEFNDIR

2.1 Bydd aelodau eisoes yn ymwybodol o adroddiad y Comisiynydd Plant Cymru ym Mehefin 2020 a danlinellodd yr angen i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth, waeth beth fo lefel yr anghenion, ond lle maent yn dioddef trallod emosiynol a/neu broblemau ymddygiad. Yr oedd yn tanlinellu fod prosesau a sustemau yn llawer rhy gymhleth ac o'r herwydd roedd tystiolaeth o blant a phobl ifanc yn syrthio rhwng stolion gwahanol, yn aros ar restrau aros am gyfnodau hirfaith ac yna yn cael gwybod eu bod ar y rhestr anghywir neu'n cnocio'r drws anghywir. Mae'r strategaeth ranbarthol hon yn cynnig datrysiad i wella gwasanaethau i'r plant a'r bobl ifanc rheiny drwy sicrhau fod gwasanaethau yn creu timau o amgylch y teulu i gyfarfod eu hanghenion yn hytrach na disgwyl i deuluoedd ffitio i'r hyn sydd ar gael. Mae yn bleser cyflwyno crynodeb o'r strategaeth newydd yma gerbron y Cabinet heddiw.

2.2 Er mwyn gwneud gwelliannau o fewn y maes, mae yn hanfodol gwneud hynny ar y cyd gyda'n partneriaid allweddol, megis y Bwrdd Iechyd a'r sector addysg. Mae'r strategaeth yn adnabod cyfleoedd ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol drwy ddysgu o fodelau arfer dda o Gymru ac yn ehangach na hynny.

2.3 Datblygwyd y strategaeth yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa gyfredol yng Ngogledd Cymru gan gwmni allanol a gomisiynwyd gan Benaethiaid Plant y chwe awdurdod ac arweinwyr iechyd dros gyfnod o bum mis yn ystod Haf 2021. Cwblhawyd y gwaith drwy ddefnyddio methodoleg Ymchwiliad Gwerthfawrogol sydd yn canolbwyntio ar gryfderau ac yn edrych i ddarganfod beth sydd yn gweithio yn dda yn y sustem gyfredol; yn gweithio i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol; llunio model ymarfer ar gyfer y dyfodol a datblygu cynllun gweithredu.

2.4 Gwnaed hyn drwy amryw o wahanol ddulliau gan gynnwys gweithio gyda rheolwyr gweithredol ar draws y rhanbarth; ymchwilio i arfer da yng Nghymru a thu hwnt; cynnal cyfres o weithdai aml asiantaethol ar draws y rhanbarth, cynnal sesiynau cyfranogi gyda phlant a phobl ifanc oedd wedi cael cyswllt gyda un neu fwy o asiantaethau, ac yna datblygu'r strategaeth drwy ddull byw gan ddefnyddio adborth gan uwch reolwyr ar y cynnwys. Nid oedd yn bosibl i gynnwys cynrychiolwyr o ysgolion yn y gweithdai oherwydd y pwysau gwaith ar adrannau addysg dros y cyfnod, ond gan eu bod yn bartner creiddiol i lwyddiant y gwaith yr ydym yn lleol wedi cynnal sgyrsiau gyda'n cydweithwyr yn yr adran addysg er mwyn sicrhau eu bod yn rhan allweddol o'r datblygiad ar gyfer y dyfodol yn lleol.

2.5 Mae'r strategaeth derfynol yn cynnig adolygiad a newid radical yn y trefniadau cyfredol ac yn cynnig model uchelgeisiol o gydweithio gyda'r nod o wella canlyniadau iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Mae yn adeiladu ar gryfderau'r sustem gyfredol ac yn cael ei llunio er mwyn ateb gofynion lleol.

2.6 Oherwydd fod y strategaeth yn adnabod fod iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc angen cael ei gefnogi oddi mewn i fframwaith gymhleth o wasanaethau ac ymyrraethau niferus, mae gan y strategaeth oblygiadau ar gyfer pob asiantaeth a phartner sydd yn cyfrannu tuag at ganlyniadau iechyd a llesiant plant a phobl ifanc er mwyn eu cefnogi i fyw eu bywydau gorau. Bydd angen i bob asiantaeth ddadansoddi eu sustemau, eu strategaethau a'u polisïau i gyd-fynd a'r strategaeth hon.

2.7 Y bwriad oedd i ddatblygu strategaeth oedd yn hwyluso'r awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd a'u partneriaid i gefnogi gwydnwch emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth. Adnabuwyd fod y rhai sydd yn gweithio yn y rhanbarth yn gweithio yn galed, yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da, ond fod y gweithlu yn ei gyfanrwydd yn ei chael yn anodd ymdopi gyda chynnydd sylweddol yn y galw am wasanaeth. Fel y mae pwysau yn cynyddu yn y sustem ac adnoddau yn crebachu oherwydd hynny, yna mae tensiynau yn dod i'r amlwg. Roedd y staff a gymerodd ran yn yr adolygiad yn dymuno gweld arweinwyr yn y maes yn ymrwymo i strategaeth radical sydd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau effeithiol sydd yn sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yn unol â gweledigaethau cenedlaethol ac amcanion polisi.

2.8 Yn ei hanfod nid yw'r cynllun yn cynnig datrusiad tymor byr na hawdd i broblemau cymhleth sydd wedi bodoli ers cyfnod estynedig, ond mae yn cynnig cynllun ar gyfer newid er mwyn ceisio ymateb i'r weledigaeth sydd yn bodoli o fewn y gwasanaethau eisoes, ond yn anodd ei chyrraedd oherwydd rhwystrau niferus.

2.9 Mae yn amlwg y bydd angen newid diwylliant sylweddol gan bartneriaid er mwyn cael gwasanaethau sydd yn llawer mwy integredig nag y maent ar y funud. Bydd angen cyrraedd hyn drwy sustemau a phrosesau hawdd, strwythurau a threfn llywodraethu glir ac yn anad dim y dymuniad a'r bwriad i roi'r plentyn neu'r person ifanc yng nghanol popeth y byddwn yn ei wneud.

## 3 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Mae'r strategaeth yn tanlinellu pwysigrwydd rheoli'r gofyn am wasanaethau drwy ddefnydd cynyddol o wasanaethau ymyrraeth gynnar ac arbedol. Nodir yn y strategaeth na all buddsoddiad yn y gwasanaethau yma fod ar draul lleihau capasiti mewn rhannau

eraill o'r sustem. Mae'r galw yn cynnyddu ar draws yr holl sustem ac mae'r strategaeth yn nodi y bydd angen cynllunio buddsoddiad drwy ddod o hyd i falans priodol fydd yn ymateb i bwysau cyfredol yn ogystal â rheoli'r galw i'r dyfodol.

3.2 Gyrrwyd yr achos am newid gan dri prif ffactor, sef, yn gyntaf, adborth gan blant, pobl ifanc a theuluoedd oedd yn dweud fod rhwystrau niferus yn eu ffordd er mwyn cael mynediad i wasanaethau gyda rhestrau aros hir yn bodoli. Roeddent yn nodi fod eu profiadau o'r gwasanaethau a'u canlyniadau yn wael a bod hyn yn ei dro yn cael effaith negyddol ar gyfleoedd bywyd yn y tymor byr yn ogystal ag ar draws eu bywydau yn y tymor hir. Yn ail, adborth gan bobl broffesiynol oedd yn adnabod problemau recriwtio a chadw staff oherwydd pwysau cynyddol ar y galw am wasanaeth; rhestrau aros hir a'r angen i oresgyn sawl rhwystr er mwyn darparu gwasanaeth i deuluoedd. Ac yn olaf, bodolaeth achos busnes economaidd gref i newid gan fod buddsoddi yn gynnar i gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, nid yn unig yn mynd i wella eu bywydau, ond yn mynd i fod yn fwy cost effeithiol i'r pwrs cyhoeddus yn y tymor byr ac ar draws cwrs bywyd unigolion yn ei gyfanrwydd.

## 4 Y CYNLLUN

*4.1* Mae datganiad gweledigaeth wedi ei datblygu ar gyfer y strategaeth a ddatblygwyd o'r prif themâu a amlygwyd yn ystod y gweithdai gyda phobl broffesiynol yn ogystal â thrwy'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc. Y weledigaeth honno yw: 'R*ydym eisiau i blant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru fwynhau'r iechyd meddwl a'r llesiant gorau. Gwnawn hyn drwy sicrhau fod mynediad i'r asiantaethau sydd yn eu cefnogi yn hawdd, fod yr asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, yn anelu i gyrraedd canlyniadau mewn ffordd amserol yn seiliedig ar ddewis plant, pobl ifanc a'u teuluoedd'*

*4.2* Cytunwyd ar gyfres o egwyddorion a ddatblygwyd drwy'r cydweithio rhanbarthol. Gellir eu gweld yn eu cyfanrwydd yn y strategaeth ei hun, ond maent yn cynnwys datganiadau megis: 'B*ydd plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am yr hyn ydynt'; 'Byddwn yn gwrando ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn deall eu byd a'u profiadau. Bydd eu barn yn ein helpu i siapio a gwerthuso ein gwasanaethau'; 'Bydd gwell cefnogaeth i iechyd meddwl mewn ysgolion' a 'Byddwn yn ei gwneud yn hawdd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddod o hyd i wybodaeth am iechyd meddwl, ac os bydd angen, i ddod o hyd i gymorth fydd yn hygyrch ac yn defnyddio trefniadau hwylus a syml'.*

*4.3* Mae'r model gwasanaeth sydd wedi ei ddatblygu i weithredu'r strategaeth 'Dim Drws Anghywir' wedi ei lunio i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i wahanol lefelau o angen, gyda phob lefel yn darparu cymorth a chefnogaeth fydd yn gymesur i'r angen gyda'r ffocws ar gynnig ymyrraeth gynnar er mwyn ceisio arbed problemau waethygu. Mae'r model yma yn mynd i gymryd lle modelau sydd yn seiliedig ar ddiagnosis a hierarchaeth o ran meini prawf mynediad.

*4.4* Y nod yw cael y cymorth cywir i'r plentyn/person ifanc cyn gynted â phosibl. Mae arfer dda yn dangos fod modd cyflawni hyn drwy broses sydd yn cael ei nodweddu gan gydweithio da, rhannu gwybodaeth a phartneriaethau aeddfed. Mae'r strategaeth yn cynnig gwasanaethau aml disgyblaethol fydd yn gweithredu fel petai yn un asiantaeth. Golyga hyn gryn newid mewn diwylliant ac awydd i wneud i bethau lwyddo ynghŷd â

sustemau, prosesau a threfniadau ariannu newydd gan gynnwys hyblygrwydd rhwng gwasanaethau plant ac oedolion ar draws pob partner.

*4.5* Bydd angen i'r model ymateb yn sydyn i broblemau iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn y gymuned er mwyn dod o hyd i ddatrysiad cynnar heb orfod cael mynediad i wasanaethau mwy ffurfiol. Golyga hyn fod gan wasanaethau cyffredinol ac ysgolion ran allweddol yn adnabod anghenion yn gynnar yn ogystal â datblygu arfer dda i gefnogi'r rhai sydd yn dioddef, gan gynnwys gwybod sut i roi cymorth cyntaf ar gyfer problemau iechyd meddwl a llesiant. Mae hyfforddiant felly yn allweddol ar gyfer yr asiantaethau yma er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau statudol a ffurfiol.

*4.6* Mae'r strategaeth yn cyfeirio at weithredu ar sail model tîm o amgylch y teulu ac mewn hybiau fydd yn gweithredu fel un drws ffrynt ar gyfer mynediad at y gwasanaeth cywir yn amserol. Bydd hyn yn digwydd drwy dderbyn ymholiadau, arwyddbostio i wasanaethau eraill neu i wybodaeth; asesu anghenion, cefnogi teuluoedd a darparu ymateb brys i unrhyw sefyllfa ar unrhyw amser yn yr ymyrraeth. Yn ddelfrydol bydd yr hybiau yn cynnwys gweithwyr o wahanol asiantaethau a disgyblaethau ac yn gweithredu oddi mewn i fframweithiau llywodraethu cytunedig.

*4.7* Bydd atebolrwydd strategol yn bodoli drwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ar gyfer gosod y cyd-destun polisi a dal y lefelau gweithredol yn atebol am eu perfformiad a'u defnydd o adnoddau.

## *5* CAMAU NESAF

5.1 Yr ydym yn hyderus yn y gwasanaeth fod gennym yr adeiladwaith a'r sylfaen briodol i ddatblygu'r gwasanaeth i gyfarfod y disgwyliadau. Yr ydym eisoes yn gweithredu un drws ffrynt sydd yn cyfuno gwasanaethau statudol, ymyrraeth gynnar a chefnogi teuluoedd drwy ddefnyddio model tîm o amgylch y teulu. Yr ydym wedi sefydlu 'Hwb Teulu Gwynedd' er mwyn gwneud hyn yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn bellach gyda threfniadau atebolrwydd a llywodraethu clir. Yr ydym yn defnyddio model tîm o amgylch y teulu ar draws y gwasanaeth gyda modelau ymarfer ac asesu risg cydnabyddedig. Felly, rydym yn credu ein bod yn cychwyn o safle manteisiol.

5.2 Mae angen gweithio ymhellach i ddatblygu gwasanaethau mwy integredig fydd yn cynnwys ein partneriaid yn ein trefniadau. Golyga hyn bydd angen symud adnoddau o lefydd fel y Bwrdd Iechyd i'r hwb yn lleol er mwy cryfhau ein gallu i roi ymyrraeth yn gynnar i blant a phobl ifanc.

5.3 Mae angen cydweithio ymhellach gyda'r Adran Addysg ac ysgolion yn benodol er mwyn datblygu arbenigedd a hyder yn yr ysgolion i gefnogi plant a phobl ifanc drwy gyfnodau anodd. Mae'r drafodaeth honno eisoes ar y gweill gyda'n cydweithwyr yn y maes addysg.

5.4 Yr ydym yn realistig na fydd hyn yn digwydd dros nos. Mae angen agwedd uchelgeisiol er mwyn cyrraedd a gwireddu datrysiadau lleol o fewn cyd-destun egwyddorion rhanbarthol cryf i gyfarfod a'r angen yn lleol. Mae'r strategaeth ei hun yn cyfannu cynllun gweithredu dros 5 mlynedd. Bydd angen ymrwymiad corfforaethol ac ymrwymiad adnoddau gan bob partner; rheolaeth rhaglen gref ac ar adegau cefnogaeth arbenigol allanol i gefnogi'r broses trawsnewid.

5.5 Ni fydd datblygu’r cynllun yn gost niwtral ac mae’n anodd rhagweld ar hyn o bryd beth fydd yr oblygiadau o ran adnodd ariannol i gyfarfod a’r disgwyliadau ac i wireddu’r cynllun. Yn sicr bydd modd edrych ar ddefnyddio cyfran o’r arian trawsffurfio a’r RIF (ICF yn flaenorol) i osod cyfeiriad a datblygu ymhellach.

## 6 CYDRADDOLDEB

6.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau clir ar gyrff y sector cyhoeddus i atal gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â Nodweddion Gwarchodedig penodol. Y rhain yw - oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gredo, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. Mae dyletswyddau penodol yn ymwneud â darparu addasiadau rhesymol ar gyfer pobl i’w helpu i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

## 7. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro

Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwytn priodoldeb.

### Swyddog Cyllid Statudol

Mae datblygiad y Strategaeth hon yn amlwg yn ganlyniad i waith trylwyr i adnabod galw ar ein gwasanaeth, a hynny gan rai o drigolion mwyaf bregus Gwynedd. Yn ychwanegol i hynny, rwyf yn argyhoeddedig byddai mabwysiadu’r Strategaeth yn gam mawr ymlaen yng nghyd-destun gwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn y gwasanaethau a ddarperir, ac rwyf yn croesawu hynny.

Fodd bynnag, mae paragraff 5.5 yn nodi na fydd datblygu’r cynllun yn gost niwtral, a’i fod yn anodd rhagweld ar hyn o bryd beth fydd yr oblygiadau o ran adnodd ariannol i gyfarfod a’r disgwyliadau ac i wireddu’r cynllun. Petai’r Cabinet yn mabwysiadu’r strategaeth ‘Dim Drws Anghywir’ fel y cyfeiriad strategol yn unol â’r penderfyniad a geisir, byddai’r penderfyniad hwnnw yn amodol ar ariannu’r swyddogaeth o fewn yr adnoddau sydd eisoes ar gael hyd nes bydd arian grant wedi cael ei gadarnhau, neu gais am adnoddau newydd wedi cael ei gyflwyno a’i gymeradwyo yn unol â’r drefn briodol arferol. Ni ddylai mabwysiadu unrhyw strategaeth greu ymrwymiad gwariant tan mae’r costau ychwanegol wedi cael eu hadnabod a’u hariannu.

Nodaf o’r strategaeth ddrafft bydd y gwaith o ddatblygu cynllun ariannol yn digwydd yn ystod 2022. Mae’n allweddol, er mwyn sicrhau fod y cynllun yn cael ei sefydlu ar sylfaen gadarn yn ogystal â sicrhau gweinyddiad ariannol priodol, fod unrhyw gostau ychwanegol ar Gyngor Gwynedd, yn ogystal â’r ffynonellau ariannu, yn cael eu hadnabod mor fuan â phosib.